Straen y Frwydr

Andrea Davies

Fe ddarllenais i unwaith, eich bod o'r eiliad y byddwch chi'n geni plentyn, yn teimlo bod craith o euogrwydd yn stamp ar eich talcen. Wnes i ddim sylweddoli y byddai angen llais croch a'r gallu i fod yn ffyrnig wrth frwydro hefyd.

Roeddwn i'n 23 oed ac yn feichiog. Roeddwn wedi cwblhau fy ngradd mewn Celfyddyd Gain a'r bwriad oedd dychwelyd adref i gael swydd, talu fy nyledion ac yna, teithio'r byd, efallai .

Daeth fy meichiogrwydd fel sioc, roeddwn i'n ifanc, yn ofnus ac yn ddryslyd. Er hynny, roeddwn am gael fy mabi ac roeddwn i'n benderfynol o fod y fam orau y gallwn i fod.

Cafodd fy mab ei eni… ac roedd o mor brydferth. Rwy'n cofio astudio ei aeliau perffaith, y ffordd yr oedd ei fodiau'n cuddio yng nghledr ei ddwylo, a'r reddf ddwys i'w amddiffyn.

Ond cyn bo hir, dechreuais weld gwahaniaethau ynddo o'i gymharu ag eraill… roedd o'n bwydo am oriau yn hytrach nag am ychydig funudau, doedd o ddim yn cyrraedd y cerrig milltir datblygiadol. Fe ofynnais am help gan yr ymwelydd iechyd.

Fe ddywedwyd wrtha i "bydd angen i ti frwydro".

Ar ôl iddo fynd i'r ysgol, buan iawn y daeth hi'n amlwg ei fod yn cael trafferthion – gyda darllen, ysgrifennu, chwarae gemau, cyfeillgarwch a chydlynu ei symudiadau… Sylwais ei fod yn dal ei ben i'r ochr wrth geisio darllen. Roedd hi'n anodd iddo wisgo amdano, dilyn cyfarwyddiadau a siarad –

roedd yn well ganddo afael yn fy llaw, arwain y ffordd a phwyntio at beth roedd ei eisiau.

Codais fwy o bryderon, y tro hwn gyda'r ysgol, a chlywais eto, “Bydd angen i NI frwydro.” A dyna pryd y dechreuodd y frwydr go iawn… y frwydr dros asesiadau, diagnosis, cefnogaeth a dealltwriaeth. Ac ar ôl hyn, y frwydr dros gyfiawnder a chynhwysiant, hygyrchedd a gofal.

Cafodd ddiagnosis o:

Ddyspracsia yna Dyslecsia… Anhwylder Cydlyniad Datblygiadol.

Yna, Anhwylder Prosesu Clywedol, Irlenes, Awtistiaeth, Anableddau Dysgu, Hypersymudedd Fasgwlaidd, Hypersymudedd Danlos Ehrler…

Gyda phob diagnosis mae'r boen yn mynd ychydig yn ddyfnach a'r frwydr yn mynd ychydig yn anoddach.

Gartref, byddai'n gwagio droriau ar lawr yr ystafell wely er mwyn cadw carreg neu degan gwerthfawr ynddyn nhw, byddai'n tynnu ar bwythau esgidiau lledr nes eu datod, yn cysuro ei hun drwy rwbio'i groen mor galed nes iddo waedu, ac yn tynnu ei wallt o'i ben.

Wrth i'r rhwyd bêl-droed a gafodd yn anrheg ar ei ben-blwydd yn 8 oed ddadfeilio, felly hefyd ein huned deuluol. Roedd angen gweithgareddau ar wahân er mwyn cael sylw 1:1. Roedd angen i'w frodyr a chwiorydd ddangos dealltwriaeth, roedden nhw'n colli cyfleoedd ac yn gorfod ymdopi â chyfrifoldebau ychwanegol…. Ac felly, mae'r euogrwydd yn tyfu...

Does dim byd yn hawdd, dim byd yn syml a dim byd yn cael ei gymryd yn ganiataol.

Mae plentyn niwroamrywiol yn ein rhwymo ac yn ein gwahanu… calon fregus i'w hamddiffyn a'i thrysori: pigyn drwy ganol cysylltiad teuluol… wrth i geir tegan rwygo trwy gemau bwrdd, diwrnodau allan gael eu torri'n fyr, a thensiwn, dadlau, dagrau a rhwystredigaethau dyfu.

Wrth i'r shifft dydd ddod i ben, byddwn yn treulio'r nosweithiau'n ymchwilio, yn cynllunio ac yn poeni...

Cryfhaodd fy llais a chynyddodd fy angerdd wrth i mi dreulio oriau yn ysgrifennu llythyrau, gwneud galwadau ffôn ac erfyn ar weithwyr proffesiynol am gymorth. Doeddwn i ddim ar fy mhen fy hun, roedd yr ysgol yn brwydro hefyd. Sut oedd hi'n bosibl gadael plentyn a oedd wedi cael diagnosis o “amhariad sylweddol” mewn cymaint o feysydd, heb ddarpariaeth ddigonol?

Ymateb Neuadd y Sir oedd “Mae Cynulliad Cymru yn dweud y gellir rhoi datganiad i 3% o blant ac rydym eisoes ar 5%.” Roeddwn i'n sgrechian… “Does dim ots gen i beth mae Cynulliad Cymru’n ei ddweud… mae angen help arno fo”

Dim ond ar ôl i mi gysylltu â'r Cyfarwyddwr Addysg y symudodd pethau o ddifrif. Cafodd ddatganiad o anghenion addysgol, cefnogaeth 1:1 yn yr ystafell ddosbarth, ac yna cynnig lle mewn ysgol arbenigol.

Mae'r blynyddoedd yn mynd heibio, fe enillon ni rai brwydrau, colli eraill a sylweddoli bod rhai brwydrau'n ofer.

Mewn rhai ffyrdd, roedd gen i fwy o nerth, mewn llawer fe leihaodd fy nerth… yn anochel dechreuodd y tensiwn rwygo a thorri… ac wrth i’r briodas chwalu, cafwyd tabledi ar bresgripsiwn, cododd y pwysedd gwaed, a phylodd yr egni.

Dyna yw straen y frwydr.

Mae teulu niwronodweddiadol yn cael trafferthion, mae teulu niwroamrywiol yn sgrechian yn fud...yr haenau ychwanegol - y corfforol, yr emosiynol a'r ariannol. Mae rhieni a brodyr a chwiorydd yn teimlo eu bod yn cael eu beirniadu ac mae cyngor da ei fwriad yn hollti fel methiant.

Does dim o hyn yn digwydd oherwydd ein plant.

Ymladdwyd y frwydr i geisio helpu, i wneud ei fywyd yn hapusach ac yn fwy boddhaus: i roi'r cyfleoedd gorau posibl… ond wrth i'r blynyddoedd fynd heibio, daw'r addysg ffurfiol i ben… ac mae'r cwymp yn serth ac yn sydyn.

Maen nhw'n dweud “dyma ddiwedd y ffordd” “cofrestru'n ddi-waith – anaddas i weithio” … dyn ifanc 20 oed bryd hynny, gyda chymaint i’w roi, cymaint o dalent, mor awyddus i fod yn aelod ystyrlon o gymdeithas… yn ei anterth ac yn cael ei daflu o’r neilltu gan gymdeithas.

Ddim mewn gwaith, ddim mewn addysg, dyddiau yn y gwely, yn flinedig, yn ddiflas ac yn drist.

Ac felly mae'r frwydr yn parhau… “pam mae'n rhaid i mi gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i fynd â fo i'r ganolfan waith bob yn ail wythnos?” pam ydw i'n cael fy nghyfeirio'n gyson at gymorth mewn llu o wahanol gyfeiriadau pan nad oes diwedd i'r daith dim ond arwyddbost i'm cyfeirio i rywle arall eto fyth?

…ac mae’r DYFODOL… o’n blaenau… y miliwn o deimladau o ansicrwydd a'r biliwn o ofnau… y “beth os?” a'r “pryd…”

A heb fy mloeddio fi, beth wedyn?

A fydd y dyddiau'n unig, ymweliadau â siopau coffi neu drip dydd achlysurol gyda gofalwr? Mae hyn yn gweithio i rai, i eraill… yr unigolion hynny sy'n bigyn ar linell mewn graff, sy'n cael trafferthion mewn rhai meysydd ond yn rhagori'n llwyr mewn eraill, beth sydd ar gael iddyn nhw, beth sydd ar gael i fy mab i?

Mae'r teuluoedd yn dal i fodoli wrth i'r plant dyfu i fod yn oedolion, ond rydym ni'n llai gweladwy…. Yn anweledig… Mae dyddiau ein pobl ifanc yn ynysig ac yn unig, ond maen nhw'n dal i fodoli, yn dawel, wedi'u cuddio oddi wrth gymdeithas. Mae'n llawer haws eu hanghofio. Wrth i'r blynyddoedd ynysig fynd heibio, cynyddu mae'r heriau. Mae'r blynyddoedd o ddysgu sut i gymdeithasu, sut i integreiddio yn diflannu'n ddistaw bach.

A ni yw'r rhai lwcus... addysgedig, galluog, ewyllys gref a rhwydwaith o ffrindiau a theulu i'n cefnogi... beth sy'n digwydd i'r rhai heb y rhain?

Mae erthygl yn Psychology Today, mis Chwefror 2023, yn nodi bod arolygon yn dangos bod cyfraddau ysgariad ar gyfer rhieni plant awtistig yn 80% o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 42%. Mae'r priodasau hynny ddwywaith yn fwy tebygol o chwalu.

Mae astudiaethau hefyd yn dangos bod gan oddeutu 50% o famau plant awtistig lefelau uwch o symptomau iselder - cyferbyniad llwyr â'r 6% o famau â phlant niwronodweddiadol dros yr un cyfnod.

Straenwyr emosiynol ac ariannol, effaith ar briodas a phartneriaeth, rhieni, gofalwyr, brodyr a chwiorydd: mae'r goblygiadau'n lledaenu'n bell ac yn ddwfn.

Cynnydd...

Mae HFT Project Search wedi dod â newid byd, mae wedi rhoi GOBAITH i ni, mae wedi newid fy mab er gwell, mae wedi codi ei ysbryd a chodi ei hunan-barch. Am y tro cyntaf yn ei fywyd fel oedolyn, mae wedi cael cynnig cam ar yr ysgol, ac mae'n rhoi cipolwg ar sut y gallai'r amhosibl fod yn bosibl. Am y tro cyntaf, mae'r dyfodol yn edrych yn fwy disglair ac mae rhywun wedi cynnig gafael yn ei law, a thrwyddo ef, yn fy llaw i… er mwyn cefnogi ac arwain y ffordd.

Dim ond yn 2009 y daeth Deddf Awtistiaeth Lloegr i rym, ac yna, y strategaeth ddilynol yn 2010, 14 mlynedd ar ôl geni fy mab. Mae pethau'n symud i'r cyfeiriad cywir ond mae gwir ddealltwriaeth, cymorth a chefnogaeth i unigolion a theuluoedd yn parhau i fod ar goll.

Sut gall unrhyw un helpu?

- Rhoi cymorth ystyrlon i deuluoedd - cymorth a chefnogaeth nid 'arwyddbyst' a 'chyfeirio'. Gafaelwch yn ein llaw ac arweiniwch y ffordd…
- Dysgwch y rheolau… daw cymaint o'n hanawsterau o ganlyniad i ddiffyg dealltwriaeth gan bobl yn eu swyddi sy'n rhoi gwybodaeth anghywir ac yn gosod rhwystrau lle nad oes angen iddynt fod a lle na ddylent fod.
- Stopiwch y frwydr am asesiadau, cymorth a chydnabyddiaeth – mae bywyd yn ddigon heriol.
- Cynigiwch gyfleoedd gwaith ystyrlon.